

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Victoria Richard caiff ei adnabod fel 'Little Chickens'

Tyfu gerddi a chreu cysylltiadau â bywyd gwyllt

## Cefndir

Mae Victoria yn warchodwr plant yn ei chartref yn Rhosllanerchrugog. Ers cael achrediad Hygge Blynyddoedd Cynnar yn 2022, mae wedi datblygu gardd organig. Mae wedi'i chynllunio i gefnogi bioamrywiaeth a gweithredu fel ystafell ddosbarth fyw, ac yn galluogi'r plant i ymgysylltu â natur, archwilio newidiadau tymhorol, cylchredau oes, a dysgu am ofal bywyd gwyllt.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Mae Victoria wedi creu amgylchedd byw lle mae'r plant yn tyfu ac yn gofalu am blanhigion wrth ddatblygu cysylltiadau ystyrlon â bywyd gwyllt. Mae'r dull yn canolbwyntio ar ddysgu ymarferol drwy'r canlynol:

- tyfu blodau, perlysiau, ffrwythau a llysiau sy'n cynnig darnau rhydd naturiol fel petalau rhosod a pherlysiau ar gyfer y plant i'w defnyddio mewn chwarae, diodydd, a gweithgareddau chwarae rôl
- creu cynefinoedd bywyd gwyllt sy'n cynnig cyfleoedd i arsylwi a darganfod
- mae pwll uchel gyda physgod aur yn galluogi'r plant i ymgysylltu drwy fwydo a gwylio
- mae llestri, deunyddiau naturiol, a darnau rhydd gan gynnwys cregyn, gwydr môr, moch coed a cherrig mân yn annog archwilio penagored

Mae'r plant yn helpu i ofalu am y planhigion ac yn dewis cynnyrch ffres yn uniongyrchol o welyau'r ardd. Mae'r dull ymarferol hwn yn creu profiadau dysgu ystyrlon am darddiad bwyd, tymhorau, a phrosesau tyfu naturiol wrth gynnig cysylltiadau dwfn â'r byd o'u cwmpas.

## Effaith ...

- Cysylltiad cadarn â natur a ffynonellau bwyd am fod y plant yn sylwi pan fydd y cynnyrch yn aeddfed ac yn gofyn i'w ddewis
- Ymwybyddiaeth well o fywyd gwyllt a dysgu sut i ofalu am bethau byw
- Mae deunyddiau naturiol ac elfennau byw yn cynnig cyfleoedd i lesiant emosiynol a thawelwch
- Mae plant yn deall y tymhorau a'r cylchredau yn well

> *Mae'r broses o roi amser i'r plant arafu, archwilio natur, a dilyn eu syniadau eu hunain wrth wraidd yr hyn rwy'n ei wneud. Mae'r ardd yn fwy nag ardal chwarae, mae'n ardal lle maent yn meithrin hyder a chwilfrydedd*